

Lynne Neagle

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

11 Rhagfyr 2024

**Llinellau amser ar gyfer yr adolygiad sydd i ddod o'r Ddeddf Anghenion Dysgu
Ychwanegol, a'r Cod**

Annwyl Lynne,

Fe wnaeth Comisiynydd Plant Cymru ddweud wrthym yn ystod y sesiwn graffu diweddar y disgwylir y diweddariad ar adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 ("y Ddeddf") a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 ("y Cod"), yn ystod haf 2025.

Fel yn ôl y casgliad yn ein adroddiad interim diweddar, rydym yn croesawu eich ymrwymiad i'r adolygiad, y gwnaethoch ei gyhoeddi i ni ar 8 Mai 2024. Fodd bynnag, hoffem ni, fel y Comisiynydd Plant, weld yr adolygiad yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl, er mwyn y plant a'r teuluoedd nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu o fewn y system ar hyn o bryd. Dyma obeithio y gall ein gwaith ymchwiliol hirdymor a manwl yn y maes hwn – yn ogystal â gwaith eraill, megis Estyn a'r Comisiynydd – helpu i gyflymu'r amserlen adolygu.

Rydym yn dechrau ystyried opsiynau ar gyfer y pedwerydd sesiwn gysylltu at ddibenion craffu ein ymchwiliad parhaus i weithrediad diwygiadau addysg. Byddai'n ddefnyddiol inni gael gwybod mwy am ganfyddiadau'r adolygiad, fel y gallwn gyfrannu'n adeiladol at eich ymdrechion i wella'r broses o roi'r Ddeddf a'r Cod ar waith.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech egluro cwmpas terfynol yr adolygiad i ni, pwy fydd yn ei gynnal, a'i amserlen (gan gynnwys erbyn pryd y disgwyliwch i'r adroddiadau terfynol – ac unrhyw adroddiadau interim – gael eu cyhoeddi).



Hoffwn gael eich ymateb erbyn 31 Ionawr 2025, fan bellaf.

Yn gywir,



Buffy Williams AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English

